# PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD 26.01.12

**Yn bresennol** – Y Cynghorydd Dewi Llewelyn (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Anwen Davies, Elwyn Edwards, Evie M. Jones, Eryl Jones-Williams, June Marshall, Linda Morgan, Caerwyn Roberts, Trevor Roberts, Gwilym Williams, R.J. Wright ynghyd â Stephen Churchman ac Arwel Pierce (Arweinyddion Portffolio)

**Hefyd yn bresennol** – Dilwyn Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Gwyn M. Jones (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol), Gareth James (Rheolwr Craffu Corfforaethol), John Reynolds (Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd), Nia H. Davies (Rheolwr Cynllunio(Polisi) ), Dafydd W. Williams (Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd), Peter Simpson (Rheolwr Gwasanaethau Stryd), Gareth Jones (Rheolwr Gwasanaeth Amgylcheddol), Alun W. Jones (Uwch Swyddog Bwrdeistrefol), Amanda Murray (Rheolwr Prosiectau) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau** - Y Cynghorwyr H.P. Hughes, John G. Jones, Llinos Merks, Ieuan Roberts, Sion Roberts, W. Gareth Roberts

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o gyfarfod o'r Pwyllgor Amgylchedd a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr 2011 fel rhai cywir.

## 3. GORCHMYNION RHEOLI CŴN

(a) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio a'r Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol ar y manteision, anfanteision ac ymarferoldeb cynigion i gyflwyno Gorchmynion Rheoli Cŵn.

(b) Codwyd y materion canlynol gan yr aelodau:-

(i) Gofynnodd aelod os y bwriedir cyflogi rhagor o Wardeiniaid Cŵn.

Mewn ymateb, cyfeiriodd y Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol at un swydd yn y strwythur i gynorthwyo gyda gweithredu, gweinyddu a gorfodi er rhoddi cymorth i'r swyddogion presennol.

(ii) Nododd aelod bod angen rhagor o Swyddogion Gorfodaeth a chyfeiriodd at achosion yn Dolgellau lle mae'r cŵn ar dennyn ond eto ceir problemau gyda cŵn yn maeddu palmentydd, mannau

cyhoeddus a.y. Cyfeiriodd at un gêm pêldroed yn gorfod cael ei gohirio am gyfnod oherwydd bod yna gymaint o faw cŵn ar y cae.

(iii) Gofynnodd aelod os yw'r swyddogion yn gweithio tu allan i'w horiau gwaith arferol gan y tybir mai yn fuan yn y bore neu'n hwyr yn y nos y bydd rhai o'r perchenogion cŵn yn troseddu.

Mewn ymateb, hysbysodd y Rheolwr Gwasanaethau Stryd bod amodau gwaith y tîm gorfodaeth yn cyfeirio at yr angen iddynt weithio tu allan i'w horiau gwaith arferol. Nododd bod rhai yn dechrau gweithio am 06.30 ac eraill yn gweithio ar ôl 18.00.

(iv) Cyfeiriodd aelod bod rhai perchenogion cŵn yn troseddu ail a thrydydd gwaith, ac 'roedd o'r farn mewn achosion o'r fath, y dylent gael eu cosbi yn y llys yn hytrach na chael dirwy pellach gan y Cyngor.

(v) Gofynnodd aelod a fyddai'n bosibl gorfodi bod pob ci i fod ar dennyn o fewn cyfyngiad cyflymder o 30mya.

Mewn ymateb, hysbysodd y Rheolwr Gwasanaethau Stryd i'r grŵp a ystyriodd y mater, benderfynu gan bod Gwynedd yn ardal mor fawr ac yn wledig ac y byddai cael rheol o'r fath drwy Wynedd yn amhoblogaidd iawn. Fodd bynnag, fe argymhellwyd bod cŵn i fod ar dennyn lle maent yn achosi niwsans. Bydd angen i hyn fynd drwy'r broses ymgynghori ac fel canlyniad, efallai y rhoddir pwyslais i'w rhoddi ar dennyn mewn ardaloedd trefol. Cyfeiriodd at y posibilrwydd o gael gorchymyn i wahardd cŵn o feysydd chwarae.

(vi) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed y trafferthion ar y Marian, Dolgellau, hysbysodd y swyddog bod y tîm gorfodaeth yn canolbwyntio eisoes ar yr ardal hon mewn cydweithrediad â'r clwb rygbi.

Cyfeiriodd aelod arall at y problemau sy'n bodoli ers blynyddoedd ar y Marian, Dolgellau gyda cerbydau'n parcio ar y maes parcio gerllaw a'r perchenogion yn gadel eu cŵn i dramwyo heb dennyn. 'Roedd o'r farn y dylid gwahardd cŵn o fannau cyhoeddus.

(vii) Gofynnodd aelod beth oedd canlyniad y bid a wnaed yn Hydref 2011 ar gyfer cynnal y ddarpariaeth hon.

Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth i'r bid gael ystyriaeth gan y Tîm Arweinyddiaeth ond ni chafodd gefnogaeth ganddynt. Fodd bynnag, os cefnogir y bid gan y pwyllgor hwn yna byddai'n ofynnol i'r mater gael ystyriaeth yng nghyfarfod nesaf Bwrdd y Cyngor pan ystyrir y bidiau.

(viii) Tynnodd aelod sylw bod y cyn Swyddog Gorfodaeth Stryd ym Mhwllheli'n gwisgo siaced felyn llachar gyda'r canlyniad bod rhai o'r perchenogion cŵn yn diflannu pan y'i gwelwyd. Gofynnodd a

fyddai'n bosibl i'r swyddogion hyn gael siaced llai amlwg o hyn ymlaen. Yn ogystal, gofynnodd a oedd cysylltiad rhwng y Swyddogion Gorfodaeth Stryd a'r Wardeiniad Cŵn a'r rhai sy'n gyfrifol am lanhau'r palmentydd oherwydd mewn rhai strydoedd, mae'r baw cŵn yn aros yno am ddyddiau cyn ei lanhau.

Mewn ymateb, hysbysodd y Rheolwr Gwasanaethau Stryd mai un o brif egwyddorion y Tîm Gorfodaeth Stryd yw bod y Swyddogion Gorfodaeth yn gwisgo gwisg swyddogol gan eu gwneud yn weledol. O safbwynt cydweithio gyda swyddogion eraill o fewn y Cyngor, cadarnhaodd bod hyn yn digwydd.

(ix) Tynnodd aelod sylw bod canran o arian y dirwyon ar un adeg yn cael eu talu'n ôl i'r Cynulliad a gofynnodd a fyddai'n bosibl erbyn hyn i'r Cyngor gael cadw'r arian.

Mewn ymateb, hysbysodd y Rheolwr Gwasanaethau Stryd bod y drefn o dalu canran y dirwyon yn ôl i'r Cynulliad yn un hanesyddol ond erbyn hyn fe newidiwyd y drefn honno gan bod yr arian erbyn hyn yn dod yn ôl i'r Cyngor, a chyfeiriodd at reoliadau parthed sut y defnyddir yr arian.

**PENDERFYNWYD derbyn bod angen sefydlu a mabwysiadu Gorchmynion Rheoli Cŵn a chyflwyno bid i Fwrdd y Cyngor ar gyfer gweithredu hynny.**

## 4. MEYSYDD CHWARAE

a) Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Gweithgor Meysydd Chwarae yn rhoddi diweddariad o waith y Gweithgor sy'n ystyried cynnal a chadw offer meysydd chwarae i'r dyfodol yn wyneb adnoddau ariannol annigonol.

Nododd yr ystyriwyd ymgynghori gyda'r cynghorau cymuned/tref ar y posibilrwydd o dderbyn cymorth ariannol ar gyfer ariannu'r cynllun 10 mlynedd o adnewyddu offer meysydd chwarae ar ddiwedd eu hoes weithredol. Fodd bynnag, penderfynodd y Gweithgor na ddylid ymgynghori â hwy a bod angen canolbwyntio ymdrechion ar gyflwyno cais o'r newydd, gyda ffigurau mwy cywir am ariannu adnewyddu offer meysydd chwarae o Gynllun Rheoli Asedau'r Cyngor.

b) Codwyd y materion canlynol gan yr aelodau -

i) Nododd y Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol pan wnaed y cais gwreiddiol i ariannu adnewyddu offer meysydd chwarae o'r Cynllun Asedau 10 mlynedd y Cyngor, 'roedd y manylion yn annigonol. Nododd i'r pwyllgor hwn yn Ionawr 2011 argymell y dylid ymgynghori â'r cynghorau cymuned/tref ond 'roedd y symiau ariannol y disgwyliwyd ganddynt tros gyfnod o 10 mlynedd yn ormodol. Nododd bod un cyngor cymuned gyda saith maes chwarae o fewn

ei ardal. Mae'r sefyllfa'n eithaf ar gyfer y tair blynedd nesaf ond ar ôl hynny a phan fydd yr offer yn cyrraedd diwedd ei oes rhagwelir ychydig o broblemau.

ii) Hysbysodd Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol bod angen cofio bod nifer o aelodau wedi cael trafferth i wneud dewisiadau ynglyn â blaenoriaethu materion cyfalaf pan sefydlwyd y strategaeth asedau, a hynny ar adeg pan mai £700,000 yn unig oedd ei angen a pryd hynny ystyriwyd mai dim ond £350,000 y gellid ei ddarparu a hynny yng ngoleuni blaenoriaethau eraill. Nododd ei fod yn hollol briodol i aelodau ystyried a oedd offer caeau chwarae yn fwy o flaenoriaeth na rhai o'r asedau eraill a fyddai'n y strategaeth asedau megis ysgolion, cartrefi gofal, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a.y. ond gofynnodd i aelodau bwyso a mesur a oeddynt wirioneddol o'r farn honno a'u bod yn bwriadu pleidleisio iddynt dderbyn y fath flaenoriaeth cyn gofyn i'r mater dderbyn ystyriaeth y Prif Bwyllgor Craffu, gan y byddai hynny'n golygu cryn dipyn o waith.

(iii) Nododd aelod bod rhai cynghorau cymuned/tref eisoes wedi ymgymryd â'r gwaith o adnewyddu offer meysydd chwarae. Cyfeiriodd at faes chwarae a sefydlwyd yn Nyffryn Ardudwy drwy ddenu grantiau a.y. o wahanol ffynonellau i dalu am y gwaith gan y sefydlwyd grŵp lleol i ofalu am hynny.

(iv) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed cael noddwyr i edrych ar ôl y meysydd chwarae, hysbysodd y Pennaeth y byddai hyn yn opsiwn ac i'r Gweithgor eisoes ystyried ffyrdd eraill e.e. cynghorau cymuned, sector preifat, grwpiau cymunedol a.y. Nododd bod yna gyllid i gynnal ac ymgymryd ag arolwg, torri gwair, paentio ac atgyweirio'r offer ar hyn o bryd ond rhagwelir ymhen tair blynedd y bydd problemau i gynnal a chadw'r offer.

(v) Cyfeiriodd aelod at y posibilrwydd o drosglwyddo rheolaeth rhai o'r meysydd chwarae i grwpiau lleol fel y gallent wneud ceisiadau am grantiau gan e.e. Sportlot tuag at y gost o adnewyddu'r offer.

Mewn ymateb, cyfeiriodd y Pennaeth at y profiadau a gafwyd drwy gynorthwyo grwpiau cymunedol i'r cyfeiriad hwn ac iddynt fod yn fwy llwyddiannus na'r Cyngor i ddenu grantiau tuag at offer meysydd chwarae.

(vi) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed y caeau chwarae yn ardal Penllyn, Bala, hysbysodd y swyddog bod y rhain yn ran o drafodaeth gyfredol gyda Phartneriaeth Penllyn ynglyn â chyfrifoldebau ychwanegol sy'n cynnwys y cyfarpar chwarae.

(vii) Gofynnodd aelod os y rhoddwyd ystyriaeth i gau rhai o'r meysydd chwarae sydd mewn cyflwr gwael, ac yna os yw'r gymuned yn gwrthwynebu hynny efallai y gellir sefydlu grwpiau yn y cymunedau hynny i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn agored.

Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth os na dderbynnir yr argymhelliad sydd gerbron y pwyllgor heddiw, yna byddai'n ofynnol ystyried strategaeth arall fel y ffordd ymlaen. Nododd bod y llythyr y bwriadwyd ei anfon at y cynghorau cymuned yn gofyn os y byddai ganddynt ddiddordeb i gymryd trosodd gyfrifoldeb y meysydd chwarae.

(c) Nododd y Rheolwr Craffu Corfforaethol bod y Gweithgor wedi cwblhau ei waith ac wedi dod i ben.

**PENDERFYNWYD**
**a) Cefnogi barn y Gweithgor y dylid gwneud cais o'r newydd, ar sail ffigurau mwy manwl a chywir a ddatblygwyd gyda'r cynllun asedau meysydd chwarae am gyllideb ddigonol i adnewyddu offer chwarae o Gynllun Rheoli Asedau 10 mlynedd y Cyngor.**
**b) Yn dilyn derbyn canlyniad y cais, bod y mater i dderbyn ystyriaeth pellach y Pwyllgor Craffu (neu pa bynnag bwyllgor fydd â chyfrifoldeb yn y drefn newydd) o ran penderfynu ar y strategaeth i'w fabwysiadu gan y Cyngor ar gyfer cynnal a darparu offer meysydd chwarae i'r dyfodol.**

**5. CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL – YNNI GWYNT AR Y TIR**

(a) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio ar fersiwn drafft ymgynghorol o'r canllaw uchod.

(b) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan y Rheolwr Cynllunio (Polisi). Gofynnodd am sylwadau'r aelodau ar fersiwn gyfredol y ddogfen cyn iddi ddod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

(c) Codwyd y materion canlynol gan yr aelodau:-

(i) Cyfeiriodd aelod at Ganllaw Cynllunio Atodol a wnaed ar y cyd â Chyngor Sir Ynys Môn a gofynnodd os oedd y canllaw sydd gerbron y pwyllgor heddiw, ac sy'n benodol ar gyfer Gwynedd, yn wahanol i'r canllaw hwnnw.

Mewn ymateb, hysbysodd y Rheolwr, yn dilyn trafodaeth â'r ddau Gyngor, bod angen dau ganllaw ar wahân oherwydd bod y cyd-destun polisi lleol ychydig yn wahanol rhwng y ddwy ardal. Nododd bod yna Ganllaw Cynllunio Atodol Drafft Ymgynghorol ar gyfer Ardal Môn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd ac mae'n adlewyrchiad o'r polisiau sydd yng Nghynllun Fframwaith Gwynedd a Chynllun Lleol Môn a Chynllun Datblygu Unedol Môn a gafodd ei atal. Nododd hefyd mai'r fersiwn sydd gerbron y pwyllgor heddiw yw'r fersiwn ar gyfer Ardal Gwynedd sy'n cefnogi'r polisiau sydd yn y Cynllun Datblygu Unedol.

(ii) Gofynnodd aelod os oes polisi sy'n gorfodi perchenogion melinau gwynt i roddi'r ynni yn ôl i'r gymuned.

Mewn ymateb, hysbysodd y Rheolwr nad oes yna bolisi penodol yn cyfeirio at hynny. Nododd y byddai trefniant o'r fath yn destun cytundeb cyfreithiol rhwng y Cyngor a'r datblygwr. Byddai'n bosibl defnyddio cytundeb 106 lle'n briodol er mwyn lleihau ardrawiad y datblygiad ar y gymuned. Parthed datblygiadau o ffermydd gwynt, byddai'n bosibl cael cytundeb y datblygwr â'r gymuned er cael buddiannau i'r gymuned ond na fyddai cytundeb o'r math hwn fel arfer yn fater i'w ystyried wrth wneud penderfyniad ar y cais cynllunio.

(iii) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed ymgynghoriad gan yr Adran Cynllunio â'r gymuned ar geisiadau a dderbynnir am felinau gwynt, hysbysodd y Rheolwr mai'r drefn statudol sy'n penderfynu pwy a sut y dylai'r Awdurdod Cynllunio ymgynghori ar bob cais a dderbynnir ond mater i'r datblygwr yw trafod ymlaen llaw â'r gymuned.

(iv) Cyfeiriodd aelod na ddylid lleoli'r melinau hyn yn agos at briffyrdd a llwybrau cyhoeddus.

(v) Mewn perthynas â'r cymal yn y canllaw ar "Arolwg Ecolegol", cyfeiriodd aelod at gymal yng Nghanllaw Cynllunio Atodol Ynys Môn sef "mae perygl o daro adar yn fwyaf tebygol o ddigwydd pan gaiff melin wynt ei chodi'n union ar lwybr ymfudo adar". Nododd na chynhwyswyd y cymal hwn yng Nghanllaw Cynllunio Atodol Gwynedd.
Cyfeiriodd hefyd at yr ail baragraff yng nghymal 18.2 – "Tirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol sydd o Ddiddordeb Arbennig yng Nghymru" ac 'roedd o'r farn y dylai ddarllen fel a ganlyn – "Dylid cyfeirio at Ganllaw Cadw ar Ymarfer Da wrth ddefnyddio'r Gofrestr Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru yn y Broses Gynllunio a Datblygu".

Mewn ymateb, hysbysodd y Rheolwr y rhoddir sylw i'r materion hyn.

(vi) 'Roedd aelod o'r farn bod y cyfnod ymgynghori o chwech wythnos yn rhy fyr ac y dylid ystyried ei ymestyn.

Mewn ymateb, hysbysodd y Rheolwr mai chwech wythnos yw'r cyfnod ymgynghori arferol ond addawodd roddi ystyriaeth i'r posibilrwydd o ymestyn y cyfnod ychydig yn hirach.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo cynnwys y Canllaw Cynllunio Atodol Drafft – Ynni Gwynt ar y Tir, i'w rhyddhau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o leiaf 6 wythnos.**

## 6. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD A MÔN

(a) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio ar Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn.

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan y Rheolwr Cynllunio (Polisi). Nododd bod y broses o baratoi'r cynllun wedi dechrau a rhoddodd fanylion am y prif gamau yn y broses a'r amserlen gan bwysleisio mai craffu'r broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd, yn erbyn y profion cadernid y cyfeirir atynt yn yr adroddiad, oedd rol y pwyllgor.

(b) Codwyd y materion canlynol gan yr aelodau:-

(i) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed y nifer o ganiatadau cynllunio sy'n bodoli ac heb eu gweithredu, hysbysodd y Rheolwr nad yw'r wybodaeth ddiweddaraf ar gael ganddi ond gall baratoi'r wybodaeth i'r aelod. Nododd yr edrychir ar ofynion yr ardal yn gyffredinol ar hyn o bryd a'r gwaith nesaf fydd ystyried cyfraniadau caniatadau cynllunio. Rhoddir ystyriaeth i'r caniatadau cynllunio sy'n bodoli eisoes a'r astudiaethau argaeledd tir ar gyfer tai sy'n adnabod faint o unedau tai sydd â chaniatâd cynllunio ac sy'n debygol o gael ei weithredu o fewn cyfnod o bum mlynedd.

(ii) Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed pwynt CE4 yn y canllaw sy'n nodi y dylai'r cynllun fod yn hyblyg, hysbysodd y Rheolwr y bydd yn ofynnol monitro'r cynllun yn flynyddol ac yn y cynllun terfynol bydd dangosyddion a fydd o gymorth i fonitro a bydd yn rhaid cynhyrchu adroddiad monitro blynyddol. Bydd yn ofynnol cynnal adolygiad llawn o'r cynllun bob pedair blynedd ac os bydd amgylchiadau'n newid yn sylweddol yna bydd cyfle i newid rhan o'r cynllun.

(iii) Gofynnodd aelod os yr ystyrir tai gwag sy'n bodoli eisoes.

Mewn ymateb, hysbysodd y Rheolwr y ceisir adnabod faint o unedau tai gwag sy'n bodoli yn yr ardal.

**PENDERFYNWYD cytuno bod yr hunan-asesiad yn cydymffurfio â'r profion cadernid.**

## 7. ADOLYGU COSTAU TOCYNNAU PARCIO I BRESWYLWYR

(a) Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio ar adolygu costau tocynnau parcio i breswylwyr.

Atgoffodd y Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd yr aelodau o'r adroddiad a gyflwynwyd i'r pwyllgor hwn ar 15 Medi 2011 parthed trosolwg o sut y gweithredwyd cynlluniau peilot parcio i breswylwyr o fewn y sir, ynghyd â rhoddi sylw i gynlluniau eraill a oedd dan ystyriaeth ar y pryd. Penderfynodd y pwyllgor ofyn i'r Gweithgor Rheoli Parcio roddi ystyriaeth pellach i opsiynau ac effaith lleihau cost y tocynnau parcio.

Nododd y cynhaliwyd cyfarfod o'r Gweithgor ar 20 Rhagfyr 2011

pryd y cyflwynwyd adroddiadau yn nodi rhai o'r opsiynau ac effaith yr opsiynau hynny ar ariannu'r cynlluniau hyn. 'Roedd y Gweithgor yn derbyn nad oedd trigolion yn hoffi talu'r gost ychwanegol yma, ond 'roeddynt o'r farn bod pris sy'n cyfateb i £1 yr wythnos ar gyfer y cerbyd cyntaf ac oddeutu £1.50 yr wythnos ar gyfer ail gerbyd yn brisiau rhesymol iawn yn enwedig yn y cyd-destun nad oedd y lefel hon yn talu holl gostau'r cynlluniau ac o fewn y cyd-destun ariannol mae'r Cyngor yn ei wynebu ar hyn o bryd. Argymhellodd y Gweithgor na ddylid gostwng prisiau'r tocynnau. Pwysleisiodd nad yw darparu cynlluniau parcio i breswylwyr yn ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol ond yn hytrach mae'n swyddogaeth y gallai'r Cyngor ddewis ei ddarparu os o'r farn ei fod yn arf priodol i'w ddefnyddio i ddatrys problemau parcio mewn ardaloedd penodol.

(b) Codwyd y materion canlynol gan yr aelodau:-

(i) Nododd un o aelodau lleol Dolgellau bod y cynllun hwn yn gweithio'n dda mewn strydoedd penodol yn y dref ond iddi gael gwybodaeth gan rhai o'r preswylwyr bod pris y tocynnau wedi codi.

Mewn ymateb, hysbysodd y swyddog nad oedd yn ymwybodol bod pris y tocynnau wedi codi ond addawodd roddi sylw i'r mater a chysylltu ymhellach â'r aelod.

(ii) Nododd aelod arall mai cost y tocynnau yw'r broblem fwyaf ac na ddynodir llecynnau penodol o flaen eiddo'r preswylwyr iddynt barcio eu cerbydau. Cydnabu bod angen cynllun o'r fath mewn rhai ardaloedd.

(iii) Cyfeiriodd aelod at y ffaith i'r cynllun fod yn llwyddiannus mewn rhai ardaloedd oherwydd i'r preswylwyr ofyn amdano.

(c) Nododd y Rheolwr Craffu Corfforaethol bod gwaith y Gweithgor Rheoli Parcio erbyn hyn wedi dod i ben.

**PENDERFYNWYD derbyn argymhelliad y Gweithgor Rheoli Parcio na ddylid gostwng prisiau tocynnau parcio i breswylwyr a nodi y byddai'r ffioedd yn ddarostyngedig i adolygiadau blynyddol yn unol â rheoliadau ariannol y Cyngor.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00a.m. a daeth i ben am 11.40am